WG35.S.145

# MARWNAD,

ER COF AM Y

# PARCH. JOHN PHILLIPS,

**BANGOR,**

GWEINIDOG PARCHUS YN NGHYFUNDEB Y METHODISTIAID CALFINAIDD, am 34 Mlynedd,

YR HWN A FU FARW

**Yn Brynteg, MON, Hydref 9, 1867, yn 56 ml. oed.**

Claddwyd ef yn Mynwent Eglwys Llaneugrad, Môn.



CAERNARFON:

ARGRAFFWYD GAN H. HUMPHREYS, CASTLE SQUARE.

X205 3129 33

# MARWNAD, &c.

BEITH yw'r gruddfau a'r galaru
  Glywir heddyw yma a thraw?
Brenin dychryn sy'n teyrnasu,
  Yn mhlith myrdd mae aeth a braw;
A'i gledd trywanodd Parch. John Phillips,
  Oedd yma'n ffyddlon was i Dduw,
Yn ddisymwth fe aeth adref,
  Fry i'r nefoedd byth i fyw.

Daeth cenhadon gwynion Gwynfa,
  Ar eu hedfa, o dŷ eu Tad,
I gyrchu Phillips yn eu cerbyd,
  Yn awr mae wedi newid gwlad;
Dewrwych filwr yn y frwydr,
  Gyda'i frodyr ar y llawr,
Megys Dafydd, ymwrolodd
  Am gael pen Goliah i lawr.

Dwys a dyfal y gweddïai,
  A chynghorai gyda ni,
Unig sail ei gym'radwyaeth
  Ydoedd aberth Calfari;
Daliodd gyda'i ddyledswyddau
  Tra bu yma ar y llawr,
Ond yn awr mae wedi hedeg
  Draw i drag'wyddoldeb mawr.

O! mor fedrus ac mor danbaid
  Y darluniai gariad Duw,
Yn yr achos prynedigol,
  I gael hedd i ddynol ryw;
Fe ddarluniai Grist yn dyodddef
  O Fethle'm draw i Galfari,
Mewn nefolaidd hwyl a theimlad
  Nes b'ai llygaid pawb yn lli'.

Ca'dd y fraint o ddechreu 'n foreu
  Ufuddhau i ddeddfau Duw,
Er cael gwawd a llid gelynion,
  Fe fu'n ffyddlon tra fu byw;

W.144.37 (P.)

Ond yn awr mae wedi hedeg
  Uwchlaw drygau'r byd a'i boen,
Oddiwrth ei waith aeth at ei wobr,
  Yn awr mae'n neithior fawr yr Oen.

Am bedair blwydd ar ddeg ar hugain,
  Bu yn gadarn ar y maes,
Coda'i lais yn erbyn pechod,
  A dangosai olud gras;
Bu yn effro uwch y dyffryn,
  'Nol gorchymyn roddwyd gynt,
Llefai 'n ddyfal, tyred awel,
  Chwyth oddiwrth y pedwar gwynt.

Rhoes ffarwel i ddyffryn Baca,
  Ag i ddyfroedd Mara mwy,
Darfu ochain gan afiechyd,
  Greddfol glefyd gwreiddiol glwy';
Haleliwia ! daeth y genad
  I 'nol ei enaid at ei ran,
Fel dymunodd mewn gruddfanau,
  Fyrdd o weithiau, wel'd y fan.

Gweinidogion, gyda lluoedd,
  A'i hebryngodd at y bedd,
Yn eu plith ei deulu parchus
  Yn alarus iawn eu gwedd;
Caw'd cynghorion dwys ion-hynod,
  Pan ei rhow'd mewn beddrod oer,
Gadawyd ef yn 'stafell angau,
  Heb ddim goleu haul na lloer.

Haner cant a chwech o flwyddi
  Welwyd ar ei arch, mae'n wir,
Pan y cariwyd gan y dyrfa,
  I mewn i dŷ ei gartref hir;
Yn ddigyffro mae e'n gorphwys,
  Dan gil y gŵys, heb weled gwawr,
Mewn undeb ffydd caiff godi fynu,
  O'i fedd, ar wedd yr Iesu mawr.

Draw yn mynwent eglwys Fugrad,
  Mae e'n gorwedd yn y bedd,
Yno mae yn tawel orphwys
  Yn llygredig iawn ei wedd;
Huna yno yn ddigon melus,
  Hyd nes dattod cloiau'r glyn,
Pan f'o corn y farn yn seinio
  O'i bridd wely daw pryd hyn.

Ca'dd pulpudau ein haddoldai
  Eu hamdoi â gorchudd du,
Yn eglwysi dinas Bangor
  O'r galaru heddyw sydd,
Colli gweinidog mor dalentog,
  A defnyddiol yn ei ddydd,
Anwyl Phillips sydd yn gorwedd
  Heddyw 'n dawel o dan gudd.

Ystyr Seion, gwrando bellach,
  Paid a grwgnach ddim yn hwy,
Duw a'i rhoddodd, Duw a'i cymerodd,
  Bendigedig fyddo mwy,
Llefa beunydd ar yr Arglwydd,
  Efe yw Llywydd nef a llawr,
Er anfon gweithwyr i'w gynheuaf,
  Fo'n llenwi'r bylchau yma'n awr.

Ffarwel bellach, Phillips anwyl,
  Rhoddaist noswyl gyda ni,
Ti eist adre yn ddihangol,
  Draw i'r ddinas freiniol fry.
Rhoddwn glod i'r goruwch Fugail,
  Erys ef yn yr anial hyn,
Hyd nes delo'r llwythau adre'
  I foli fry yn Seion fryn.

---

*Argraffwyd gan H. Humphreys, Castle Square Caernarfon.*